# Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 6 Chwefror 2024

## Mae'r agenda'n cynnwys

- Cyflwyniad i waith diwygio Cynhyrchion Rheoleiddiedig
- Cyflwyniad a thrafodaeth am ddiwygio sylfaenol

Mae'r agenda lawn i'w gweld ar dudalen Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar ein gwefan.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau hyn, neu yng ngwaith yr ASB yn gyffredinol, ddod i'r cyfarfod i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Gallwch fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae modd cyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor ymlaen llaw trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

## Manylion am y lleoliad

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn adeiladau Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar-lein drwy MS Teams.

Bydd modd cofrestru a chael paned o 9am cyn i'r cyfarfod ddechrau'n brydlon am 9.15am.

## Cadw eich lle a chyflwyno cwestiynau

Anfonwch e-bost i walesadminteam@food.gov.uk er mwyn cadw lle i ddod i'r cyfarfod wyneb yn wyneb neu wylio ar-lein, cyflwyno cwestiwn neu gael mwy o wybodaeth.